# Cyngor Cymuned Dolwyddelan

## Adroddiad Blynyddol 2025/26

Am fersiwn llawnach o'r ddogfen hon, gan gynnwys yr adroddiad ariannol, ewch i dolwyddelancc.org.uk

Rydym ni'n cynrychioli Dolwyddelan, Pont Rufeinig, Pont-y-Pant, a holl ardal LL25 Dyffryn Lledr.

Eich Clerc/Swyddog Ariannol/Clerc Claddu ydy Simon Shutler.

Eich Cynghorwyr Cymuned am y flwyddyn:

**Cadeirydd:** Carwyn L Price
**Is-gadeirydd:** Mike Skerrett
**Cynghorydd Sir:** Elizabeth Roberts
Kaya Musgrove / Connie Brewer / Iwan W Griffiths /
Edwin R. Noble / Teleri W Jones

**Fel Cyngor Cymuned rydym ni'n gwneud ein gorau glas i wneud y canlynol:**

Cynrychioli a gweithredu fel llais dros ein cymunedau / Gweithio ar ran pobl leol i ofyn i Gyngor Conwy a chyrff statudol eraill gyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn ffordd sy'n bodloni anghenion trigolion Dolwyddelan / Dylanwadu, galluogi a chefnogi grwpiau cymunedol / Ymgeisio am grantiau neu ffynonellau cyllid sy'n cefnogi gweledigaeth a nodau'r Cyngor Cymuned.

**Cyfleusterau'r pentref y mae'r Cyngor Cymuned yn eu monitro a'u rheoli ar ran y gymuned:**

Mynwent Bryn y Bedd / Senotaff / Toiledau cyhoeddus /
Biniau baw cŵn / Safle Bws

**Nodwch NAD ydy'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y canlynol:**

Ffyrdd / Priffyrdd / Cynllunio / Gwastraff / Casglu Sbwriel /
Tai a Budd-daliadau'r Cyngor / Addysg ac Ysgolion

**Beth mae eich Cyngor Cymuned wedi bod yn ei wneud yn 2025/26:**

**Mynwent Bryn y Bedd** – Yn ystod y flwyddyn rydym ni wedi parhau i wneud gwelliannau i'r fynwent. Cafodd arolygiad ei gynnal gan dîm bioamrywiaeth Un Llais Cymru ar y cyd â chyflwyno cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor Cymuned. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol iawn ac maent hefyd wedi rhoi rhai coed a llwyni brodorol yn rhodd i helpu gyda bioamrywiaeth. Gyda chymorth Dolwyddelan yn ei Blodau